

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD GWENER, 20 MEDI 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Edgar Owen a Dafydd Owen

Swyddogion: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Alun Merfyn Roberts (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr ymgeisydd

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Amlygodd y Swyddog Trwyddedu bod cais wedi dod i law gan yr ymgeisydd i ohirio'r gwrandawriad gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymadau gwaith.

PENDERFYNWYD gohirio'r gwrandawriad fel bod modd i'r ymgeisydd fod yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.05 y.h.

CADEIRYDD